**Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer TAR Uwchradd Hanes**

Llongyfarchiadau!
Rydych wedi'ch gwahodd i gyfweliad ar gyfer lle ar y rhaglen TAR Uwchradd Hanes/ Daearyddiaeth/Addysg Grefyddol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd – rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn i gael cwrdd â chi a chael clywed am yr hyn sydd gennych i'w gynnig yn ddarpar athro Hanes/ Daearyddiaeth/Addysg Grefyddol uwchradd. Bydd y llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn y gofynnir i chi ei wneud yn ystod diwrnod y cyfweliad a bydd hefyd yn rhoi syniad clir i chi ynglŷn â'r hyn rydym yn chwilio amdano mewn darpar athro Hanes/ Daearyddiaeth/Addysg Grefyddol. Mae wedi'i ddylunio i'ch helpu i baratoi yn unol â hynny, i chi fod â'r cyfle gorau posib i fod yn llwyddiannus.

Bydd pedair rhan i'r broses gyfweld, a allai gael eu cynnal mewn trefn wahanol i'r un a nodir.

**Rhan 1**
Byddwch yn gwneud profion mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd tasg ysgrifennu estynedig hefyd yn ymateb i erthygl ar bwnc addysgol er mwyn asesu eich sgiliau darllen ac ysgrifennu. Byddwch yn derbyn yr erthygl cyn y diwrnod i chi gael paratoi, felly daliwch ar y cyfle i'w darllen yn drylwyr ac i ddeall y prif bwyntiau. Bydd y rhan hon o'r diwrnod yn para tua dwy awr.

**Rhan 2**
Byddwch yn cymryd rhan mewn tasg addysgu ymarferol. Rydym yn eich gwahodd i baratoi episod addysgu byr iawn – dim mwy na 5 munud. Mae'n debygol y byddwch yn addysgu grŵp bach iawn o gyd-ymgeiswyr, chwech ar y mwyaf. Dylech geisio addysgu elfen o bwnc oddi ar fanyleb TGAU CBAC ar gyfer Hanes/Daearyddiaeth/Addysg Grefyddol. Ymhlith rhai themâu posib mae:

- Effaith Cwymp Wall Street ar yr economi yn yr Almaen
- Beth sy'n gwneud tirweddau yn nodedig yng Nghymru?
- Ymagweddau gorchymyn dwyfol/absoliwtiaeth sefyllfaol /perthynolaidd a moeseg rhinwedd tuag at wneud penderfyniadau moesegol

Byddwn yn chwilio am:

- dull apelgar, brwdfrydig
- y meddwl gafodd ei roi i baratoi eich sesiwn
- gwybodaeth a dealltwriaeth sicr o'ch pwnc
- cyflwyno gwybodaeth/syniadau yn glir.

**D.S. Does dim disgwyl i chi ddarparu cynllun gwers**

*1. Cadwch bethau'n syml! Dydyn ni ddim yn chwilio am wers berffaith, dim ond eich potensial, felly bydd rhywbeth bach â ffocws yn ddelfrydol. Dim ond 5 munud fydd gennych!*

*2. Dewiswch bwnc rydych yn teimlo'n hyderus ac yn gyffyrddus yn ei gylch – cofiwch rydym yn awyddus i weld beth gallwch ei wneud ac nid beth na allwch ei wneud!*

*3. Ewch amdani…a mwynhewch!*

Os byddwch yn bwriadu defnyddio adnoddau ar gyfer eich episod addysgu byr, bydd rhaid i chi eu darparu nhw i gyd, felly byddwch yn barod i ddod â nhw gyda chi. Mae'n werth nodi hefyd **na fydd cyfleusterau TG neu PowerPoint ar gael**.

**Rhan 3**
Gofynnir i chi gymryd rhan mewn trafodaeth fer (tua 10-15 munud) gyda'r ymgeiswyr eraill. Ni fydd angen i chi baratoi ar gyfer hyn gan y rhoddir y pwnc i chi ar y dydd.

Bydd **Rhan 4** yn cynnwys cyfweliad unigol byr pryd y gallwch esbonio eich cymhellion i ddod yn athro hanes/daearyddiaeth/Addysg Grefyddol uwchradd, a dangos faint rydych yn deall rôl yr athro mewn ysgol brif ffrwd. Cewch gyfle hefyd i ofyn cwestiynau i ni fel y gallwch wneud dewis gwybodus. Rydym am gael cyfle hefyd i sôn wrthych am ein prifysgol a'n rhaglen TAR Uwchradd gan ein bod yn credu bod llawer gennym i'w gynnig i athro dan hyfforddiant sy'n llawn awydd a dyhead ac rydym yn teimlo'r un mor gyffrous â chithau ynglŷn â'ch dyfodol.

Edrychwn ymlaen i gael cwrdd â chi yn y cyfweliad a dymunwn bob hwyl i chi ar y diwrnod. A wnewch chi gyrraedd 15 munud cyn yr amser a nodwyd er mwyn i ni gael dechrau'r rhaglen yn brydlon.

Dymuniadau gorau
Mark Williams
Arweinydd Rhaglen TAR Uwchradd Hanes
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

TEF Silver Teaching Excellence Framework

FfRhA Arian Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu

**Met Caerdydd yw'r darparwr TAR Uwchradd mwyaf yng Nghymru ac un o'r mwyaf yn y DU. Yn ogystal, mae'n un o 4 prifysgol yn unig i gael eu hachredu ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru o fis Medi 2019: https://www.ewc.wales/site/index.php/en/ite-accreditation/providers-of-initial-teacher-education-in-wales-from-2019.html**

**I gael rhagor o wybodaeth am ein cwrs, ewch i:**
**http://www.cardiffmet.ac.uk/education/courses/Pages/Secondary-PGCE.aspx**

Arolwg Profiad a Addysgwyd Uwchraddedigion

Postgraduate Taught Experience Survey

**Ansawdd y dysgu a'r addysgu - 90%**

**Boddhad â'r cwrs - 92%**

**Boddhad â'r lleoliadau ysgol - 98%**

**Cyfradd lwyddo 100%**

**Mae 95% o'n hathrawon dan hyfforddiant yn cael swydd yn y sector (Arolwg DHLE 16/17)**